CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **1/10/2024**

Teitl: **Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus**

Pwrpas yr adroddiad: **I godi ymwybyddiaeth y Cabinet o'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus, ac i benderfynu p'un ai mabwysiadu'r siarter ar ran y Cyngor.**

Er: **Penderfyniad**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Cyflwyniad

Yn dilyn casgliad ail gwest Hillsborough ym mis Ebrill 2016, cafodd cyn-Esgob Lerpwl, yr Esgob James Jones ei gomisiynu gan Lywodraeth y DU i gynnal adolygiad ar brofiadau teuluoedd Hillsborough dros y blynyddoedd ers y trychineb.

Cyflwynwyd ei adroddiad yn dilyn hyn i'r Senedd gyda'r pennawd '*The Patronising Disposition of Unaccountable Power'*. Mae'r Adroddiad yn cofnodi profiadau Teuluoedd dros y 28 diwethaf, ac yn cyflwyno 25 cam dysgu gan gynnwys 'Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus'. Dangosodd yr adroddiad fod profiadau llawer o deuluoedd Hillsborough yn cael eu hadlewyrchu ym mhrofiadau teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth mewn trychinebau cyhoeddus dilynol.

Nodwyd camau dysgu, a gwnaethpwyd argymhellion i'r Llywodraeth, yr heddlu ac asiantaethau eraill sydd yn ynghlwm â thrasiedïau cyhoeddus.

Ysgrifennwyd y Siarter i sicrhau nad yw'r dioddefaint a ddioddefwyd gan deuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn trychineb Hillsborough 1989 yn cael ei ailadrodd pe bai digwyddiadau trychinebus tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

Y Sefyllfa Gyfredol

Mae Grŵp Gwasanaethau Brys Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ar y cyd i fabwysiadu'r argymhellion gan Adolygiad Hillsborough a amlinellwyd yn y Siarter. Maent yn ceisio datblygu darpariaeth ledled Cymru ar draws Fforymau Cydnerthedd Lleol, ymatebwyr brys, Asiantaethau Iechyd, Awdurdodau Lleol, a'r Sector Gwirfoddol. Mae'r Siarter yn gofyn i lofnodwyr:

- Rhoi buddiannau'r cyhoedd uwchlaw enw da eich sefydliad eich hun
- Ymdrin â phob math o graffu cyhoeddus gyda gonestrwydd mewn ffordd agored, onest a thryloyw
- Osgoi ceisio amddiffyn yr hyn na ellir ei amddiffyn

Bydd mabwysiadu'r Siarter hon ac anrhydeddu ei hegwyddorion yn rhoi fframwaith i ni gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth a'r gymuned yn sgil digwyddiad mawr. Mae'n tynnu sylw at ein hymrwymiad i ganolbwyntio mwy ar bobl yn ystod trasiedi gyhoeddus ac i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad.

Wrth fabwysiadu'r Siarter hon byddai Cyngor Sir Ceredigion felly yn ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n ymdrechu i:

- Pe bai trasiedi gyhoeddus yn digwydd, cefnogi cynlluniau brys a defnyddio adnoddau i achub dioddefwyr, cefnogi'r rhai sydd mewn galar ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.
- Blaenoriaethu diddordeb y cyhoedd cyn ein henw da ein hunain.
- Mynd ati i gynnal ffurfiau o graffu'n gyhoeddus – gan gynnwys ymholiadau a chwestau cyhoeddus – gyda dyletswydd, mewn ffordd agored, onest a thryloyw, gan ddatgelu pob dogfen, deunydd a ffeithiau perthnasol yn llwyr. Ein hamcan yw helpu i ddod o hyd i'r gwirionedd. Rydym yn derbyn y dylem ddysgu o'r canfyddiadau craffu allanol ac o gamgymeriadau'r gorffennol.
- Osgoi ceisio amddiffyn y sawl na ellir eu hamddiffyn neu ddiystyru neu ddibrisio'r rhai a all fod wedi dioddef am ein bod ni heb gyrraedd y safonau disgwyliedig.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn trin aelodau o'r cyhoedd a'i gilydd â pharch a chwrteisi. Pan nad ydym yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, dylem ymddiheuro yn uniongyrchol ac yn wirioneddol.
- Cydnabod ein bod yn atebol ac yn agored i gael ein herio. Byddwn yn sicrhau bod prosesau ar waith sy'n galluogi'r cyhoedd i'n dwyn i gyfrif am y gwaith rydym yn ei wneud ac am y ffordd rydym yn ei wneud. Nid ydym yn camarwain y cyhoedd na'r cyfryngau yn fwriadol.

Yn unol â'r uchod, cynigir bod Cyngor Sir Ceredigion yn mabwysiadu'r argymhellion a nodir yn y Siarter hon, a fydd yn ein galluogi i ddiwallu anghenion a disgwyliadau teuluoedd pe baem yn wynebu trychineb gyhoeddus sylweddol yn y dyfodol.

<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na, gan mai'r cynnig yw cofrestru ar siarter yn hytrach na pholisi.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>
I'r Cabinet nodi cynnwys y Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus, ac i fabwysiadu'r siarter ar ran y Cyngor.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Bydd mabwysiadu'r Siarter hon ac anrhydeddu ei hegwyddorion yn darparu cydweithio a chydraddoldeb gyda fframwaith cenedlaethol i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth a'r gymuned yn sgil digwyddiad mawr.

Trosolwg a Chraffu:
Ystyriwyd y Siarter gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 12 Medi 2024, a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cabinet.

Fframwaith Polisi:
Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
Dim

Goblygiadau cyfreithiol:
Mae'r Siarter yn unol â rhwymedigaethau wrth gefn sifil y Cyngor i ymateb i argyfwng ac arwain ar adferiad.

Goblygiadau staffio:
Dim, gan fod y staff yn cael tasgau wedi'u hailddyrannu i gynorthwyo gyda'r ymateb a'r adfer.

Goblygiadau eiddo / asedau:
Dim

Risg(iau):
Gall methu mabwysiadu'r Siarter arwain at risg i enw da.

Pwerau Statudol:
Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

Papurau Cefndir:
Dim

Atodiadau:
Atodiad 1- Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Swyddog Adrodd:
Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Dyddiad:
13 Medi 2024

Siarter

1. Pe bai trasiedi gyhoeddus yn digwydd, cefnogi cynlluniau brys a defnyddio adnoddau i achub dioddefwyr, cefnogi'r rhai sydd mewn galar ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.

2. Blaenoriaethu diddordeb y cyhoedd cyn ein henw da ein hunain.

3. Mynd ati i gynnal ffurfiau o graffu'n gyhoeddus – gan gynnwys ymholiadau a chwestau cyhoeddus – gyda dyletswydd, mewn ffordd agored, onest a thryloyw, gan ddatgelu pob dogfen, deunydd a ffeithiau perthnasol yn llwyr. Ein hamcan yw helpu i ddod o hyd i'r gwirionedd. Rydym yn derbyn y dylem ddysgu o'r canfyddiadau craffu allanol ac o gamgymeriadau'r gorffennol.

4. Osgoi ceisio amddiffyn y sawl na ellir eu hamddiffyn neu ddiystyru neu ddibrisio'r rhai a all fod wedi dioddef am ein bod ni heb gyrraedd y safonau disgwyliedig.

5. Sicrhau bod pob aelod o staff yn trin aelodau o'r cyhoedd a'i gilydd â pharch a chwrteisi. Pan nad ydym yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, dylem ymddiheuro yn uniongyrchol ac yn wirioneddol.

6. Cydnabod ein bod yn atebol ac yn agored i gael ein herio. Byddwn yn sicrhau bod prosesau ar waith sy'n galluogi'r cyhoedd i'n dwyn i gyfrif am y gwaith rydym yn ei wneud ac am y ffordd rydym yn ei wneud. Nid ydym yn camarwain y cyhoedd na'r cyfryngau yn fwriadol.

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **1 Hydref 2024**

Teitl: **Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus**

Pwrpas yr adroddiad: **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 12 Medi 2024**

Cefndir:
Cyflwynodd Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet, yr adroddiad ar Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 12 Medi 2024.

Yn dilyn casgliad ail gwest Hillsborough ym mis Ebrill 2016, cafodd cyn-Esgob Lerpwl, yr Esgob James Jones ei gomisiynu gan Lywodraeth y DU i gynnal adolygiad ar brofiadau teuluoedd Hillsborough dros y blynyddoedd ers y trychineb

Dangosodd yr adroddiad fod profiadau llawer o deuluoedd Hillsborough yn cael eu hadlewyrchu ym mhrofiadau teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth mewn trychinebau cyhoeddus dilynol. Nodwyd pwyntiau dysgu ar gyfer y Llywodraeth, yr heddlu ac asiantaethau eraill sydd yn ymwneud ag ymateb i drychinebau cyhoeddus.

Ysgrifennwyd y Siarter i sicrhau nad yw'r dioddefaint a ddioddefwyd gan deuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn trychineb Hillsborough 1989 yn cael ei ailadrodd pe bai digwyddiadau trychinebus tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad / Argymhellion: Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu nodi cynnwys y Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus ac argymell i'r Cabinet bod Cyngor Sir Ceredigion yn mabwysiadu'r Siarter.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad: Bydd mabwysiadu'r Siarter hon ac anrhydeddu ei hegwyddorion yn darparu cydweithio a chydraddoldeb gyda fframwaith cenedlaethol i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth a'r gymuned yn sgil digwyddiad mawr.

Argymhelliad / Argymhellion:
Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn mabwysiadu'r Siarter.

Y Cynghorydd Wyn Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu